

### Cyhoeddi *Good Work Plan*

Ym mis Rhagfyr, o'r diwedd, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei *Good Work Plan* sy'n amlinellu sut mae'n bwriadu gweithredu mewn ymateb i nifer o'r argymhellion sydd wedi'u nodi yn Adolygiad Taylor o Arferion Gweithio Modern [*Review of Modern Working Practices*] ac i adborth o ymgynghoriadau diweddar y Llywodraeth.

Mewn perthynas â rhai o'r argymhellion penodol, mae'r Undeb yn nodi y bydd y canlynol yn effeithio ar athrawon cyflenwi fel gweithwyr asiantaeth:

- ymestyn cylch gwaith yr Arolygiaeth Safonau Asiantaethau Cyflogaeth i gynnwys asiantaethau cyswllt a chwmnïau ymbarél;
- diddymu 'Rhanddirymiad Sweden' neu gontractau ar sail 'tâl rhwng penodiadau' sy'n cael eu defnyddio'n aml i rwystro athrawon cyflenwi rhag cael cyflog cyfartal o dan y Rheoliadau Gweithwyr Asiantaeth;
- ymestyn yr hawl i weithwyr dderbyn datganiad o'u hawliau pan gânt eu penodi, sy'n nodi bod yn rhaid i bob gweithiwr dderbyn datganiad ysgrifenedig o fanylion y gyflogaeth, o ddiwrnod cyntaf eu cyflogaeth;
- newid y rheolau mewn perthynas â chyfrifo tâl wythnosol ar gyfer tâl gwyliau fel bod y cyfnod cyfeirio ar gyfer tâl newidiol yn cael ei gynyddu o 12 wythnos i 52 wythnos;
- cynyddu'r cosbau am achosion mwy difrifol o dorri deddfwriaeth cyflogaeth;
- gorfodi'r rheoliadau ynghylch tâl gwyliau i weithwyr asiantaeth drwy'r Arolygiaeth Safonau Asiantaethau Cyflogaeth a'r Awdurdod GLAA (Gangmasters and Labour Abuse Authority);
- mwy o eglurder mewn perthynas ag atal gweithwyr asiantaeth rhag derbyn eu tâl neu ynghylch gwneud didyniadau aneglur ganddynt.

Mae'r *Good Work Plan* ar gael ar: [https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/766167/good-work-plan-command-paper.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/766167/good-work-plan-command-paper.pdf).

Mae NASUWT wedi gwneud cyfraniad hanfodol bwysig i ganlyniad y *Good Work Plan*, gan sicrhau fod pryderon athrawon cyflenwi'n derbyn clust ac yn cael eu cymryd o ddifrif, yn arbennig drwy wthio am diddymu 'Rhanddirymiad Sweden' sy'n rhoi'r gallu i gyflogwyr dalu llai i weithwyr asiantaeth na'u gweithwyr eu hunain, o dan rai amgylchiadau penodol.

Mae Llywodraeth y DU wedi gosod yr offerynnau statudol cyntaf gerbron y Senedd a bydd y rhain yn dod i rym ar 6 Ebrill 2020. Mae'r rhain ar ffurf:

- **Rheoliadau Hawliau Cyflogaeth (Manylion Cyflogaeth a Gwyliau Blynyddol â Thâl) (Diwygio) 2018**, sy'n nodi bod yn rhaid rhoi'r datganiad ysgrifenedig o fanylion cyflogaeth o ddiwrnod cyntaf y gyflogaeth. Mae hefyd yn newid y rheolau mewn perthynas â chyfrifo tâl wythnosol i bwrpasau tâl gwyliau, drwy gynyddu'r cyfnod cyfeirio ar gyfer tâl newidiol o 12 wythnos i 52 wythnos;
- **Rheoliadau Gweithwyr Asiantaeth (Diwygio) 2018**, sy'n diddymu 'Rhanddirymiad Sweden' i weithwyr asiantaeth. Bydd y rhain hefyd yn dod i rym ar 6 Ebrill 2020;
- **Rheoliadau Hawliau Cyflogaeth (Diwygiadau Amrywiol) 2019**, sy'n ymestyn yr hawl i weithwyr dderbyn datganiad ysgrifenedig (cyn hynny, roedd i gyflogeion yn unig), sy'n cynyddu'r cosbau am achosion mwy difrifol o dorri deddfwriaeth cyflogaeth, ac sy'n gostwng y canran sy'n ofynnol i gael cais dilys gan gyflogai'n gofyn i'r cyflogwr negodi cytundeb ar hysbysu ac ymgynghori â'i gyflogeion.

*Parhad drosodd*

## Y Codiad Cyflog i Athrawon Cyflenwi ar gyfer 2018/19

Yn dilyn cyhoeddi Dogfen Cyflog ac Amodau Gwaith Athrawon Ysgol (STPCD) 2018, mae NASUWT wedi ysgrifennu at asiantaethau cyflenwi i ofyn bod codiadau cyflog o 1 Medi 2018 ymlaen i athrawon cyflenwi'n adlewyrchu'r rheiny i athrawon sydd ar gontractau parhaol, fel a ganlyn:

Y Brif Ystod Cyflog – cynnydd o 3.5% o leiaf;

Yr Ystod Cyflog Uwch – cynnydd o 2% o leiaf;

Yr Ystod Cyflog Arweinyddiaeth – cynnydd o 1.5% o leiaf.

Mae'r llythyr at asiantaethau cyflenwi ar gael ar [www.nasuwt.org.uk/advice/supply-teacher.html](http://www.nasuwt.org.uk/advice/supply-teacher.html).

## Athrawon Cyflenwi a 'Phrofion am Ddim'

Hysbyswyd NASUWT bod rhai asiantaethau cyflenwi'n gofyn i athrawon cyflenwi wneud gwaith cyflenwi heb dderbyn tâl yn rhan o brosesau cyfweld am swydd a ddefnyddir gan rai ysgolion.

Mae gan athrawon cyflenwi sy'n gweithio i asiantaethau yr hawl i gael eu talu am y gwaith a wnânt, p'un a yw'r penodiad ar sail awr, sesiwn neu ddydd.

Dylai hyn fod yn rhan o'r telerau a'r amodau gwaith y cytunir arnynt pan fyddwch yn cofrestru gydag asiantaeth. Mae'r *Rheoliadau Ymddygiad Asiantaethau Cyflogaeth a Busnesau Cyflogaeth* yn nodi'n glir y dylid esbonio'r telerau a'r amodau gwaith o flaen llaw a chytuno arnynt mewn ysgrifennu gyda'r athrawon cyflenwi.

Felly, ni chaiff asiantaeth ddisgwyl i chi wneud prawf am ddim.

Mae NASUWT wedi ysgrifennu at Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg y DU i dynnu sylw at y mater yma ac i ofyn i'r Llywodraeth weithredu i roi diwedd ar gamfanteisio ar athrawon cyflenwi.

Bydd NASUWT yn parhau i dynnu sylw at y mater yma, felly os ydych wedi wynebu rhywbeth tebyg fel athro cyflenwi, rhowch wybod i ni os gwelwch yn dda drwy anfon e-bost at [supply@mail.nasuwt.org.uk](mailto:supply@mail.nasuwt.org.uk).

## Cynhadledd a Fforwm Ymgynghori i Athrawon Cyflenwi

Byddwn yn cynnal y Gynhadledd Athrawon Cyflenwi nesaf ar 2 Mawrth yn Warwick Conferences ar gampws Prifysgol Warwick.

Bydd y Gynhadledd yn darparu nifer o weithdai datblygiad proffesiynol parhaus, yn ogystal â chyfle i rwydweithio gydag athrawon cyflenwi eraill.

I gael rhagor o fanylion, cysylltwch â'r Tîm Cynadleddau a Digwyddiadau ar [conferencesandevents@mail.nasuwt.org.uk](mailto:conferencesandevents@mail.nasuwt.org.uk).



03330 145550  
[advice@mail.nasuwt.org.uk](mailto:advice@mail.nasuwt.org.uk)  
[www.nasuwt.org.uk](http://www.nasuwt.org.uk)